OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1896 (Cy.197)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *18 Gorffennaf 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *26 Awst 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 29, 29A, 29B, 43ZA, 49F, 49I, 49L, 49M, 49N, 49O, 49P, 49Q, 49R, 65 a 126(4) o Ddeddf y Gwsanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 1977 p.49; *gweler* adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p. 19), adran 26(2)(g) ac (i), am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations". Cafodd adran 29 ei hymestyn gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p. 49), adran 17; a'i diwygio gan Ddeddf y Gwasanaethau Iechyd 1980 (p. 53), adrannau 1 a 7 ac Atodlen 1, paragraff 42(b); gan Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 (p. 41), Atodlen 6, paragraff 2; gan Ddeddf Feddygol 1983 (p. 54), adran 56(1) ac Atodlen 5, paragraff 16(a); gan O.S. 1985/39, erthygl 7(3); gan Ddeddf yr Awdurdodau Iechyd 1995 (p. 17), Atodlen 1, paragraff 18; a chan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (p. 46) ("Deddf 1997"), Atodlen 2, paragraff 8. Mewnosodwyd adran 43ZA gan Ddeddf 2001, adran 25. Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2); a chan Ddeddf 1999, Atodlen 4, paragraff 37(6). Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 29, 29A, 29B a 126(4) o Ddeddf 1977 wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o, ac Atodlen 1 i, Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1999, adran 66(5); mae adran 68 o Ddeddf 2001 yn darparu y dylid dehongli Atodlen 1 fel ei bod yn cynnwys y diwygiadau a wnaed gan y Ddeddf honno i Ddeddf 1977 sef adrannau 43ZA a 43F i 43R.